# Atebion i Gwestiynau nas Cyrhaeddwyd yn y Sesiwn Llawn 16 Tachwedd 1999

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

### Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a Chynnydd mewn Grantiau Awdurdodau Lleol

**C6 Alun Cairns:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ymrwymo i gynyddu'r grantiau sydd yn cael eu talu i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ac i awdurdodau lleol o arian newydd uwchlaw grant bloc Barnett? (OAQ2005JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r adolygiad gwariant cynhwysfawr wedi pennu maint terfyn gwariant adrannol y Cynulliad tan 2001-02. Bydd yr adolygiad gwariant nesaf yn pennu terfyn y gwariant adrannol tan 2003-04. Gall y Cynulliad bennu sut y mae'n dyrannu adnoddau o fewn y terfyn gwariant adrannol.

### Taliadau Dŵr

**C7 Gareth Jones:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i gydraddoli'r seiliau am daliadau dŵr yng nghartrefi Cymru? (OAQ1998JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae Deddf Diwydiant Dŵr 1999 yn gosod strwythur newydd ar gyfer pennu taliadau cwmnïau dŵr. Mae'n cynnwys cynnig canllawiau i gyfarwyddwr cyffredinol y gwasanaethau dŵr a fydd yn cael eu hystyried pan fydd y cyfarwyddwr cyffredinol yn cymeradwyo cynlluniau taliadau'r cwmnïau dŵr. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pwerau i lunio rheolau y bydd rhaid i'r cynlluniau taliadau dŵr eu dilyn, megis mesurau i ddiogelu grwpiau diamddiffyn. Daeth y gorchymyn a oedd yn trosglwyddo grymoedd y Ddeddf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i rym ddoe. Mae'r grymoedd yn caniatáu i'r Cynulliad gyhoeddi canllawiau ac i lunio rheoliadau.

Ar hyn o bryd, mae cyfarwyddwr cyffredinol y gwasanaethau dŵr yn adolygu'r cyfyngiadau ar brisiau dŵr yng Nghymru a Lloegr ar gyfer y pum mlynedd rhwng mis Ebrill 2000 a mis Mawrth 2005 a chyhoeddodd benderfyniadau drafft ym mis Gorffennaf. Bydd yn cyhoeddi ei benderfyniadau terfynol ddiwedd y mis hwn.

### Argyfwng yng Nghefn Gwlad Cymru

**C8 Nicholas Bourne:** Pa fesurau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu eu cyflwyno yn y deuddeg mis nesaf er mwyn lleddfu'r argyfwng yng nghefn gwlad Cymru? (OAQ2001JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dylech gydnabod y cymorth sylweddol yr ydym wedi ei roi i ffermwyr a chymunedau cefn gwlad i ymdopi â'u problemau. Ers mis Mai yr ydym wedi hyrwyddo cyfres o bolisïau a rhaglenni a fydd yn helpu i liniaru'r nifer o heriau amryfal sydd yn wynebu cymunedau cefn gwlad. Mae cynllun Amcan 1 ar gyfer gorllewin Cymru a'r Cymoedd, cyllid tebygol Amcan 2 i sawl rhan o'r dwyrain gwledig, y Cynllun Datblygu Gwledig, a chefnogaeth o fewn yr Ardaloedd a Gynorthwyir newydd arfaethedig i gyd yn darparu ar gyfer amrywiaeth o fesurau i fynd i'r afael â'r problemau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd yn wynebu cefn gwlad Cymru.

### Cysylltiadau rhwng Busnesau Bach a Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru

**C9 David Lloyd:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i wella cysylltiadau a chydweithrediad rhwng busnesau bach a sefydliadau addysg uwch yng Nghymru? (OAQ2011JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Prin fis yn ôl, lansiais 'Wil i'w Wely' fel cyfrwng i drefnu partneriaethau effeithiol rhwng diwydiant a'n sefydliadau addysgol. Mae'r fenter newydd gyffrous hon yn trefnu bod cydgysylltwyr yn cael eu penodi ym mhedwar rhanbarth y fforwm economaidd newydd yng Nghymru i ganolbwyntio ar helpu busnesau bach a chanolig eu maint yn arbennig, i fanteisio ar ffynonellau gwybodaeth, arbenigeddau technegol a chyfleusterau ymchwil ein prifysgolion a'n colegau. Byddant yn gweithio'n glòs gyda swyddogion diwydiant y colegau eu hunain a chynghorwyr dyfeisgarwch a thechnoleg Cyswllt Busnes fel rhan o rwydwaith ehangach o gymorth sydd yn ymestyn ledled Cymru.

Datblygu economi y mae gwybodaeth yn sail iddi yw un o gonglfeini ein polisïau economaidd yng Nghymru. Yn ganolog i'n cynlluniau i greu economi o'r fath, mae gwneud mwy a gwell defnydd masnachol o arbenigeddau a thechnolegau ein sector academaidd.

Yn 'Ffordd i Ffyniant: agenda economaidd newydd i Gymru', a gyhoeddwyd gennym y llynedd, disgrifiwyd nifer o raglenni sydd wedi llwyddo i annog mwy o gydweithio o'r fath. Yn eu plith yr oedd y Cynllun Cwmni Addysgu sydd wedi hen ennill ei blwyf ac sydd yn uchel iawn ei barch, y rhaglen Cymru Prosper Wales a rhaglen Canolfan Arbenigeddau Awdurdod Datblygu Cymru. Maent oll yn hybu symud gwybodaeth a thechnoleg o fyd academia i fyd masnachol busnesau Cymru.

Mae'r ddogfen rhaglennu sengl ddrafft ar gyfer Amcan 1 yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu cysylltiadau rhwng diwydiant ac academia, ac o'r flwyddyn nesaf ymlaen, byddaf yn ariannu cronfa manteisio ar wybodaeth er mwyn i sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru feithrin y gallu i greu cyfoeth, trwy wneud y gorau o'u cyfleusterau ymchwil uwch-dechnolegol ac ehangu mentrau masnachol er enghraifft.

**Cynrychioli Cymru ar Gwangos ar gyfer Prydain gyfan**

**C10 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cael â'r Prif Weinidog ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i sicrhau bod gan Gymru gynrychiolaeth ar unrhyw gwango newydd ar gyfer Prydain gyfan ac mai'r Cynulliad fydd yn penodi'r rhai a fydd yn cynrychioli Cymru? (OAQ1996JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau cyrff cyhoeddus anadrannol yn amrywio'n arw, o gyrff gweithredol gyda chyllidebau o filiynau o bunnoedd i bwyllgorau ymgynghorol gwyddonol gydag aelodaeth arbenigol iawn. Byddai'n amhriodol trafod y cyrff hyn i gyd ar yr un gwynt.

Pob tro y bydd cynnig yn dod i law, byddaf yn dadlau o blaid yr achos yn ôl ei rinweddau i sicrhau bod lles Cymru'n cael ei gynrychioli'n iawn ar gyrff y DU, yn enwedig pan fydd cysylltiad amlwg gyda swyddogaethau'r Cynulliad hwn. Y ffordd orau o gytuno ar drefniadau penodi cyrff newydd y DU yw drwy drafodaethau dwyochrog a chytundeb ar bob achos yn unigol. Yr ydym eisoes wedi derbyn tystiolaeth y gall yr agwedd hon fod yn llwyddiannus, fel y gwelwyd yn fwyaf diweddar gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

**Parc Coedwig Cas-gwent**

**C11 David Davies:** A ydyw'r Prif Ysgrifennydd neu unrhywun o'i swyddogion wedi cyfarfod â'r Fenter Goedwigaeth neu'r Comisiwn Coedwigaeth yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn trafod y posibilrwydd o werthu Parc Coedwig Cas-gwent? (OAQ2008JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nac ydw, ond mae Huw Edwards, AS Mynwy, wedi trafod y pwnc gyda mi. Yr wyf wedi ymchwilio i'r sefyllfa ac yr wyf yn fodlon bod unrhyw werthiant arfaethedig yn amodol ar ganiatâd cynllunio. Mae'r broses honno hefyd yn caniatáu ymateb gan y cyhoedd a chyda golwg ar

swyddogaeth apeliadol y Cynulliad, ni fyddai'n briodol imi drafod y mater gyda'r Fenter Goedwigaeth na'r Comisiwn Coedwigaeth.

**Dieithrwch Cymdeithasol ym Mhowys (Amcan 2)**

**C12 Kirsty Williams:** Sut mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu defnyddio arian Amcan 2 er mwyn mynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol ym Mhowys? (OAQ1988JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ar hyn o bryd mae Partneriaeth Dwyrain Cymru yn gweithio ar ddogfen raglennu sengl ar gyfer Amcan 2 ac, yn naturiol, bydd dieithrwch cymdeithasol yn ffurfio rhan bwysig o'u hystyriaethau. Bydd gan y Cynulliad gyfle i ystyried cynigion y Bartneriaeth maes o law.

**Anabledd Cymru (Adeilad Newydd y Cynulliad)**

**C13 Richard Edwards:** A ymgynghir yn llawn ag Anabledd Cymru ynghylch y cynigion diweddaraf ar gyfer dyluniad adeilad newydd y Cynulliad? (OAQ1985VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Gwneir. Mae Anabledd Cymru eisoes wedi bod yn rhan o drafodaethau gyda phensaer a swyddogion y cynllun, gan drafod pob agwedd ar fynediad i bobl gydag anabledd, a bydd yn cyfrannu at bob cam o broses dylunio ac adeiladu'r cynllun.

**Penodiadau i Dribiwnlysoedd**

**C14 Owen John Thomas:** A fydd y Prif Ysgrifennydd yn cefnogi unrhyw ymdrechion i sicrhau trosglwyddo pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru parthed penodiadau i dribiwnlysoedd sydd yn gweithredu yn y meysydd hynny y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt? (OAQ1987JS) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cyswllt Ieuenctid Cymru**

**C15 Jane Davidson:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i ddefnyddio mudiadau megis Cyswllt Ieuenctid Cymru, sydd yn anelu at addysgu pobl ifainc am gamddefnyddio sylweddau a HIV fel darparwyr pwysig ar gyfer y Cynulliad? (OAQ1991JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ar hyn o bryd yr ydym yn darparu cyllid craidd ar gyfer Cyswllt Ieuenctid Cymru dan gynllun grant i gefnogi gweithgareddau'r mudiadau gwirfoddol sydd yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i frwydro'n erbyn camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Mae'r cyllid yn cefnogi Cyswllt Ieuenctid Cymru yn ei amcan o waith a arweinir gan gyfoedion ifainc i atal camddefnyddio sylweddau a lledaeniad HIV.

Cyfarfûm â'r cydlynydd a phobl ifainc a oedd yn cynrychioli Cyswllt Ieuenctid Cymru ar 3 Tachwedd 1999, i wrando ar eu sylwadau ynghylch y materion amrywiol sydd yn effeithio ar fywydau pobl ifainc yng Nghymru. Yn ystod y cyfarfod, pwysleisiais y pwysigrwydd a roddir ar wrando ar sylwadau a phryderon pobl ifainc gan y Cynulliad. Yr wyf eisiau inni ddefnyddio partneriaeth gyda busnesau, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol i'r eithaf, gan gynnwys mudiadau fel Cyswllt Ieuenctid Cymru, i oleuo polisïau a helpu i sicrhau ein bod yn gwasanaethu pobl Cymru'n effeithiol.

**Blwyddyn Ieithoedd Ewrop (Eithrio'r Iaith Gymraeg)**

**C16 Elin Jones:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi derbyn unrhyw sylwadau gan fudiadau neu unigolion ynglŷn â phenderfyniad y Comisiwn Ewropeaidd i eithrio'r iaith Gymraeg o Flwyddyn Ieithoedd Ewrop? (OAQ2000JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid oes sicrwydd y bydd y Gymraeg yn cael ei heithrio o'r fenter hon ac mae eglurhad yn cael ei geisio gan y Comisiwn. Bydd cynnig y Comisiwn, a gyhoeddwyd ar 19 Hydref, i sefydlu 2001 yn Flwyddyn Ieithoedd Ewrop, yn ddarostyngedig i benderfyniad gan y Senedd Ewropeaidd a Chyngor y Gweinidogion. Mae Cabinet y Cynulliad a'n swyddogion yn cymryd rhan lawn yn y broses o lunio safbwynt y DU ar y cynnig hwn gan y Comisiwn, a byddant yn parhau i wneud hynny. Nid wyf wedi derbyn unrhyw sylwadau penodol o'r fath, er bod Janet Davies wedi cyflwyno cwestiwn Cynulliad i Tom Middlehurst ynglŷn â sicrhau statws gyfartal i'r Gymraeg ag iaith Luxembourg a'r Wyddeleg.

## Monitro Protocolau Hil a Chydraddoldeb

**C17 Alison Halford:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd egluro sut y mae ein protocolau hil a chydraddoldeb yn cael eu monitro ac a wnaiff gyhoeddi ffigurau sydd yn ymhelaethu ar gyfraniad grwpiau sydd yn draddodiadol heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gymharu'r ffigurau â rhai ers 1997? (OAQ1984VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ffynhonnell wybodaeth ganolog ar gyfraddau cyfraniad y grwpiau a grybwyllwyd, felly nid oes modd cymharu'r agweddau sydd gennym heddiw â'r agweddau a fu. Fodd bynnag, dyma fater sydd yn esblygu'n gyflym ac ar hyn o bryd mae swyddogion yn cynnal archwiliad cydraddoldeb ar holl bolisïau'r Cynulliad. Dylai hyn roi data sylfaenol inni allu gweld i ba raddau y mae merched, yr anabl a phobl o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig yn cael lle yn ein polisïau a'n harferion ar hyn o bryd.

Yn ogystal â hyn, bydd dadansoddi'r archwiliad yn cynnwys ystyried pa gamau ymarferol gellir eu cymryd i fonitro'r cynnydd mewn perthynas â'n hymrwymiad i ddwys ystyried cyfle cyfartal yn ein holl fusnes a gweithgareddau.

## Trafnidiaeth i'r Cynulliad (Cael Gwared â Chyswllt Rheilffordd Rhodfa Bute)

**C18 Janet Ryder:** Pa ddarpariaeth sydd yn cael ei gwneud gan Gyngor Sir Caerdydd ar gyfer trefniadau teithio i'r Cynulliad, ac eithrio trafnidiaeth ffordd, yn dilyn y penderfyniad i gael gwared â chyswllt rheilffordd Rhodfa Bute? (OAQ2007JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dylai adeilad y Cynulliad fod o fewn cyrraedd pawb sydd yn dymuno cyfrannu at waith y Cynulliad. Mae Cyngor Sir Caerdydd yn datblygu cynigion ar gyfer safle bws safonol ger adeilad y Cynulliad ym Mae Caerdydd, gan gynnwys dwy loches gydag ymyl y palmant ar uchder a fydd yn golygu mynediad ar wastad, ac mae posibilrwydd hefyd o osod teledu cylch cyfyng a gwybodaeth gyfredol i deithwyr.

Mae fy swyddogion wedi sefydlu grŵp astudio trafnidiaeth ar y cyd â Chyngor Sir Caerdydd, a chan gynnwys Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, awdurdodau lleol a'r rhai sydd yn cynnig gwasanaethau cludiant. Nod y grŵp yw ystyried atebion trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer datblygiad y Bae yn fwy cyffredinol. Fel rhan o'u gwaith bydd y grŵp yn ystyried yr opsiynau am drafnidiaeth gyhoeddus rhwng canol y ddinas a'r Bae yn lle cysylltiad trên presennol Rhodfa Bute.

## Deddfu yn y Senedd (Pwerau'r Cynulliad)

**C19 Ieuan Wyn Jones:** Pa drafodaethau a gafodd y Prif Ysgrifennydd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn â chynlluniau deddfu yn y Senedd, sydd yn effeithio ar bwerau'r Cynulliad? (OAQ2012JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fel y dywedais yn yr ateb a roddais i Rhodri Glyn Thomas ar 2 Tachwedd (OAQ1643VB), yr wyf yn fynych yn trafod cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer sesiwn nesaf y Senedd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Yr wyf yn sicrhau ei fod yn ymwybodol o farn y Cynulliad yn fwy cyffredinol, yn ogystal â barn y Cabinet, fel ei fod yn gallu cyfrannu i drafodaethau'r Cabinet yn yr un modd ag yr oeddwn i'n ei wneud tra'n Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

O dan adran 31 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, rhaid i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ymgynghori â'r Cynulliad ar y rhaglen ddeddfu bob blwyddyn. Bydd y Trefnydd yn cyhoeddi amseriad hyn yn y ffordd arferol.

**Dim Darpariaeth ar gyfer Mynediad i'r Anabl (Adeilad Newydd y Cynulliad)**

**C20 Peter Rogers:** Sut y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu ymateb i'r pryderon nad oedd darpariaeth ar gyfer mynediad i'r anabl yn nyluniad gwreiddiol adeilad y Cynulliad? (OAQ2002JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr oedd y dyluniad gwreiddiol yn cynnig mynediad i'r anabl, ond gofynnais i bensaer y cynllun feddwl sut y byddai modd gwella ar hyn i ymateb i'r pryderon hynny a leisiwyd gan bobl anabl, Aelodau'r Cynulliad a grwpiau eraill oedd a diddordeb yn y maes. Ar hyn o bryd yr wyf yn ystyried y dewisiadau a gyflwynwyd ganddynt.

Pan fyddaf wedi cael cyfle i ystyried y dewisiadau hyn yn llawn, byddaf yn gofyn am gymeradwyaeth y bwrdd llywio ar y cynlluniau diwygiedig. Yna, byddaf yn rhoi datganiad i'r Aelodau ynghylch yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni.

Bydd grwpiau anabledd a grwpiau eraill sydd â diddordeb yn y maes yn cael cyfle i roi sylwadau ar y dyluniad a goleuo'r broses ddatblygu yn ystod y cyfnod o roi gwybodaeth ac ymwybyddiaeth cyhoeddus sydd yn cael ei gynllunio ar gyfer dechrau'r flwyddyn nesaf.

**Caerdydd yn Ddinas Diwylliant Ewrop**

**C21 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd gomisiynu astudiaeth o'r manteision i Gymru pe bai Caerdydd yn cael ei dewis i fod yn Ddinas Diwylliant Ewrop yn 2008? (OAQ2004JS) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Tâl yn ôl Perfformiad (Goblygiadau ar Gynhwysiant Cymdeithasol)**

**C22 William Graham:** Beth yw goblygiadau tâl yn ôl perfformiad ar gynhwysiant cymdeithasol yn ne-ddwyrain Cymru? (OAQ1999JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ers degawdau bellach, mae'r athrawon gorau wedi gorfod gadael yr ystafell ddosbarth er mwyn cael dyrchafiad. Bydd gwobrwyo'r athrawon gorau am aros yn yr ystafell ddosbarth yn gwella ansawdd addysg ac yn helpu i frwydro yn erbyn dieithrwch cymdeithasol.

**Arolwg Cynhwysfawr o Wariant**

**C23 Cynog Dafis:** Pa ofyniadau penodol y bydd y Prif Ysgrifennydd yn eu cyflwyno i Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â'r arolwg cynhwysfawr o wariant? (OAQ1992JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn disgwyl y bydd yr arolwg nesaf o wariant yn cynnwys holl ystod cyfrifoldebau'r Cynulliad. Bydd yr arolwg yn cyfeirio'n arbennig at oblygiadau ariannol cronfeydd strwythurol Ewrop i'r Cynulliad.

**Gonestrwydd ac Atebolrwydd yng Ngwaith y Cynulliad**

**C24 Michael German:** Pa ddarpariaethau a wnaethpwyd gan y Prif Ysgrifennydd er mwyn sicrhau bod y Cynulliad yn agored ac yn atebol yn ei waith? (OAQ2006JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn eich cyfeirio at y ddadl ar 9 Tachwedd ynghylch mynediad i wybodaeth yn y Cynulliad ac mewn llywodraeth leol. Yr wyf yn llwyr gytuno ag ateb Andrew Davies ar y materion a godwyd yn y ddadl honno.

**Lleihau Trosedd yn y Gymru Wledig**

**C25 Rhodri Glyn Thomas:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i leihau trosedd yn y Gymru wledig? (OAQ1995JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae lleihau trosedd ac adeiladu cymunedau mwy diogel ledled Cymru yn flaenoriaeth uchel imi. Er mai'r Ysgrifennydd Cartref sydd â'r prif gyfrifoldeb am drosedd ac anrhefn, mesurau atal yw'r ffactor allweddol, ac yr wyf wedi datblygu amrywiaeth o gynlluniau ar draws holl sbectrwm gwaith y Cynulliad, gan gynnwys Pobl mewn Cymunedau, y Gronfa Bartneriaeth Plant a Phobl Ifainc a'r Fenter Mynediad i'r Ifainc, gyda chanolbwynt arbennig ar yr ifainc. Ar y cyd â'r Fargen Newydd, bydd y cynlluniau hyn yn mynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad anghymdeithasol drwy ddiddymu'r amodau y maent yn ffynnu arnynt.

Rhoddodd Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 ffyrdd newydd o fynd i'r afael â throseddu ac atal yr ifainc rhag troseddu. Mae'r partneriaethau lleihau troseddu ac anrhefn sydd yn rhoi strategaethau ar waith yn ardal pob awdurdod unedol yn ganolog i hyn. Yr wyf yn llwyr gefnogi gwaith y partneriaethau, sydd yn cynnwys yr heddlu a sawl corff y mae gan y Cynulliad berthynas agos â hwy megis awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd a'r sector gwirfoddol ac yr wyf yn hyrwyddo'r cynnig y bydd y Cynulliad yn cael ei nodi dan Ddeddf 1998, fel corff a fydd yn cydweithio ag awdurdodau lleol a'r heddlu mewn perthynas â strategaethau lleol.

Yr wyf yn cydnabod y gall byw yn y wlad arwain at ei broblemau ei hun, ond credaf y bydd yr agwedd gyfannol y mae'r Cynulliad yn ei mabwysiadu yn lleihau troseddu ac anrhefn ym mhob cymuned yng Nghymru.

**Arwyddion y Cynulliad**

**C26 Geraint Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i wella'r arwyddion sydd yn dangos y ffordd i'r Cynulliad? (OAQ2010JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bydd arwyddion yn cael eu rhoi ar draffordd yr M4 tua'r dwyrain a thua'r gorllewin i ddangos y dylai ymwelwyr â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ddilyn yr arwyddion am Fae Caerdydd. Ar hyn o bryd mae dyluniad a manylion lleoliad yr arwyddion ychwanegol hyn yn cael eu cwblhau. Yn ychwanegol at hyn, caiff arwyddion lleol i adeilad y Cynulliad eu darparu fel rhan o gynllun Rhodfa Bute. Bydd arwyddion yn cael eu codi ger cyffordd Stryd Pierhead a Stryd Dwyrain Bute ac wrth gefn adeilad yr UCI o The Flourish. Mae'r arwyddion hyn eisoes wedi cael eu harchebu a dylent fod wedi eu codi cyn y Nadolig.

**Cynllun Strategol ar gyfer Datblygu Bae Caerdydd**

**C27 Phil Williams:** Pwy fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol am greu a gweithredu cynllun strategol unedig newydd er mwyn datblygu Bae Caerdydd mewn ffordd gydlynol a sicrhau ei fod yn dod â budd gwirioneddol i bobl Cymru? (OAQ2009JS) ***Tynnwyd yn ôl.***